



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Polisi Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig

Rhagfyr 2023

Enw a Lleoliad y Ddogfen	Polisi Ariannol Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig
Awdur	Nerys Lewis Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Uniongyrchol
Perchennog y Ddogfen	Audrey Somerton Edwards Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol
Dyddiad Adolygu	Mae'r ddogfen hon i'w hadolygu o leiaf bob 3 blynedd ar ôl dyddiad ei chymeradwyo. Gellir cynnal adolygiadau cynyddol yn ôl yr angen.
Hygyrchedd	Gellir trefnu bod y ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.

Diweddariadau, Diwygiadau a Newidiadau

Fersiwn	Manylion y Newid	Dyddiad

Tabl Cynnwys

1. Polisi Gwarcheidiaeth Arbennig - Cefndir	4
2. Cymhwystra	6
3. Ceisiadau	8
4. Adroddiadau awdurdod lleol i'r llys	9
5. Ceisiadau gwarcheidiaeth arbennig yng nghyd-destun cynllunio sefydlogrwydd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal	11
6. Ceisiadau gwarcheidiaeth arbennig yng nghyd-destun cynllunio sefydlogrwydd ar gyfer plant nad ydynt yn derbyn gofal	12
7. Gwasanaethau Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig	13
8. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	17
9. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol am lwfansau Gwarcheidiaeth Arbennig	18
10. Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig a Gadael Gofal	20
11. Cwynion a Sylwadau	23
12. Atodiadau	24

1. Polisi Gwarcheidiaeth Arbennig - Cefndir

1.1 Cyflwynwyd Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig gan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Wedi hynny, cafodd Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 eu cyflwyno a'u diwygio gan Reoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2018 a Chod Ymarfer Gwarcheidiaeth Arbennig ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig 2018.

1.2 Mae Gwarcheidiaeth Arbennig yn cynnig mwy o sicrwydd na maethu hirdymor ond nid yw'n golygu'r holltiad cyfreithiol llwyr oddi wrth y teulu biolegol sy'n deillio o orchymyn mabwysiadu.

- Mae Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn rhoi'r hawl i'r Gwarcheidwad Arbennig, yn ddarostyngedig i unrhyw orchymyn arall sydd mewn grym mewn perthynas â'r plentyn o dan Ddeddf Plant 1989, i arfer cyfrifoldeb rhiant ac eithrio unrhyw berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn (ar wahân i Warcheidwad Arbennig arall).
- Yn wahanol i fabwysiadu, o dan Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, mae'r rhieni geni yn parhau i fod yn rhieni cyfreithiol i'r plentyn ac yn cadw cyfrifoldeb rhiant, er bod eu gallu i arfer hyn yn gyfyngedig iawn.
- Y bwriad yw y bydd gan y Gwarcheidwad Arbennig gyfrifoldeb clir am yr holl benderfyniadau o ddydd i ddydd ynghylch gofalu am y plentyn neu'r person ifanc ac am wneud unrhyw benderfyniadau eraill am ei fagwraeth, er enghraifft, ei addysg.
- Gall Gwarcheidwad Arbennig arfer cyfrifoldeb rhiant ac eithrio eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant, megis y rhieni, a heb fod angen ymgynghori â nhw ym mhob achos heblaw am ychydig.
- Un o brif ddibenion Gwarcheidiaeth Arbennig yw diwallu angen y plentyn am berthynas gyfreithiol ddiogel gyda'i ofalwr. I'r perwyl hwn, pan wneir

Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, ni fydd y plentyn bellach yn cael ei ystyried fel un sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol.

- 1.3 I gyd-fynd â threfniadau'r Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig mae cyfrifoldebau ychwanegol ar awdurdodau lleol mewn perthynas ag asesu, cynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig, gan gynnwys cymorth ariannol. Mae plentyn a oedd yn derbyn gofal yn union cyn gwneud Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, a fyddai'n cael ei ystyried yn berson ifanc categori 3 yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) yn parhau i fod yn gymwys i gael cymorth fel person ifanc sy'n gadael gofal.

2. Cymhwysra

- 2.1 Cyn i'r awdurdod lleol gymryd unrhyw gamau i gefnogi cais am Warcheidiaeth Arbennig, rhaid iddo sicrhau yn gyntaf fod y person(au) sy'n dymuno dod yn Warcheidwad/warcheidwaid Arbennig yn gymwys. Gall llys wneud Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig mewn perthynas â phlentyn ar gais y personau a ganlyn:
- Unrhyw warcheidwad y plentyn
 - Gofalwr maeth awdurdod lleol y mae'r plentyn wedi byw gydag ef ers blwyddyn yn union cyn y cais
 - Unrhyw un a enwir mewn Gorchymyn Preswylfa neu Orchymyn Trefniadau Plant fel person y mae'r plentyn i fyw gydag ef, neu sydd â chydsyniad pawb y mae Gorchymyn Preswylfa neu Orchymyn Trefniadau Plant mewn grym o'u plaid.
 - Unrhyw un y mae'r plentyn wedi byw gydag ef/hi am dair o'r pum mlynedd diwethaf
 - Perthynas i'r plentyn y mae'r plentyn wedi byw gydag ef/hi am gyfnod o flwyddyn o leiaf **yn union** cyn y cais
 - Pan fo'r plentyn yng ngofal awdurdod lleol, unrhyw berson sydd â chydsyniad yr awdurdod lleol
 - Unrhyw un sydd â chydsyniad pawb sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn
 - Unrhyw berson, gan gynnwys y plentyn, sydd â chaniatâd y llys i wneud cais
- 2.2 Gall y llys hefyd wneud Gorchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig mewn unrhyw achosion teuluol yn ymwneud â lles y plentyn os ydynt yn ystyried y dylid gwneud gorchymyn. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed pan nad oes cais wedi'i wneud ac mae'n cynnwys achosion mabwysiadu.
- 2.3 Gall ceisiadau am Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig gael eu gwneud gan unigolyn neu ar y cyd gan ddau neu ragor o bobl. Nid oes angen i ymgeiswyr ar y cyd fod yn briod neu mewn partneriaeth sifil â'i gilydd. Rhaid i warcheidwaid

arbennig fod yn 18 oed neu'n hŷn. Efallai na fydd rhieni neu lys-riant plentyn yn dod yn Warcheidwad Arbennig y plentyn hwnnw.

2. 4 Ym mhob achos, bydd angen i'r gweithiwr cymdeithasol gofal plant o fewn yr awdurdod lleol roi adroddiad i'r llys. Rhaid i'r llys a'r awdurdod lleol ystyried yr holl ystod o opsiynau sydd ar gael.

3. Ceisiadau

- 3.1 Rhaid i ymgeisydd roi tri mis o rybudd ysgrifenedig i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn, (yn achos plentyn sy'n cael ei faethu) neu i'r awdurdod lleol lle mae'r ymgeisydd yn preswyllo fel arfer (os nad yw'r plentyn yn derbyn gofal) o'i fwriad i wneud cais am Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig.

- 3.2 Yr unig eithriad i hyn yw pan fydd gan berson ganiatâd y llys i wneud cais sy'n cystadlu am Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig lle mae cais am Orchymyn Mabwysiadu eisoes wedi'i wneud. Mae hyn er mwyn atal y cais sy'n cystadlu rhag gohirio gwrandawriad y gorchymyn mabwysiadu.

4. Adroddiadau awdurdod lleol i'r llys

- 4.1 Yn ystod y cyfnod rhybudd o dri mis, rhaid i weithiwr cymdeithasol gofal plant yr awdurdod lleol gwblhau adroddiad fel a bennwyd neu drefnu i rywun arall wneud hyn ar ei ran. Mae'r atodlen i Reoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005, Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2018 a'r Cod Ymarfer Gwarcheidiaeth Arbennig yn manylu ar yr hyn y dylai'r adroddiad ei gynnwys.
- 4.2 Rhaid i'r awdurdod lleol baratoi adroddiad i'r llys ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant eraill. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r holl wybodaeth angenrheidiol am y plentyn, teulu'r plentyn, dymuniadau a theimladau'r plentyn, y darpar Warcheidwad Arbennig, gwybodaeth am yr awdurdod lleol a gwblhaodd yr adroddiad ac argymhellion ynghylch a ddylid gwneud gorchymyn, trefniadau cyswllt a gwasanaethau cymorth arfaethedig, gan gynnwys cymorth ariannol.
- 4.3 Mae dyletswydd statudol i gynnal gwiriadau manwl gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd ar ddarpar Warcheidwaid Arbennig ac unrhyw oedolion sy'n aelodau o'u haelwyd yn unol â Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2018.
- 4.4 Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r safonau arferion da a nodir yn y canllawiau statudol, y dylid cyfeirio atynt, dylai'r gweithiwr cymdeithasol sy'n paratoi'r adroddiad ar gyfer y llys fod â chymwysterau a phrofiad addas. Fodd bynnag, lle na ellir cyflawni hyn, bydd gweithwyr cymdeithasol nad oes ganddynt brofiad addas yn cael eu goruchwylio gan rywun sydd â phrofiad.
- 4.5 Pan fydd yr awdurdod lleol yn cael hysbysiad naill ai gan yr ymgeisydd neu'r llys, rhaid iddo anfon gwybodaeth ysgrifenedig at y darpar Warcheidwad Arbennig a rhieni'r plentyn, yn nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd wrth baratoi'r adroddiad.

4.6 Pan geir cais am Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig ar gyfer plentyn sydd â Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig o fewn yr awdurdod lleol, rhaid cynnal cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Gweithwyr Cymdeithasol i sicrhau cywirdeb gwybodaeth a dadansoddiad cadarn.

5. Ceisiadau gwarcheidiaeth arbennig yng nghyd-destun cynllunio sefydlogrwydd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

- 5.1 Pan fydd yr awdurdod lleol yn cael hysbysiad o fwriad i wneud cais am Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig mewn perthynas â phlentyn sy'n derbyn gofal, dylid hysbysu'r Swyddog Adolygu Annibynnol cyn gynted â phosibl a dylid trafod y cais yn Adolygiad y Plentyn sy'n Derbyn Gofal.
- 5.2 Bydd yr awdurdod lleol yn ystyried hysbysiadau gan ofalwyr cymwys a all ddymuno gwneud cais am Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn sgil y rhestr wirio lles yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Lles y plentyn fydd y brif ystyriaeth. Bydd barn a dymuniadau'r plentyn a'r gofalwyr, ac addasrwydd y gofalwyr, gan gynnwys a ydynt yn deall eu rôl fel Gwarcheidwaid Arbennig yn llawn, yn cael eu hystyried yn llawn. Pan fydd plentyn yn peidio â derbyn gofal o ganlyniad i wneud Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, rhaid i'r ymgeiswyr ddeall yn llawn sut y byddant yn cymryd cyfrifoldeb am fagwraeth y plentyn, efallai heb yr un lefel o gyfranogiad gan yr awdurdod lleol. Dylai dogfennau cynllunio sefydlogrwydd a/neu gofnodion achos adlewyrchu unrhyw drafodaethau/cytundebau gyda'r Rheolwr Tîm neu'r Rheolwr Corfforaethol perthnasol lle mae cyngor cyfreithiol annibynnol wedi'i roi i'r rhieni maeth.
- 5.4 Rhoddir gwybod i'r darpar ymgeiswyr am rôl yr awdurdod lleol wrth adrodd a gwneud argymhellion i'r llys, gan gynnwys eu dyletswydd i ystyried ac adrodd ar ba opsiynau eraill y gallai'r llys ddymuno eu hystyried.
- 5.5 I gael gwybodaeth am gymorth ariannol ar gyfer Gwarcheidwaid Arbennig, gweler Polisi Cymorth Ariannol Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig Cyngor Sir Ceredigion.

6. Ceisiadau gwarcheidiaeth arbennig yng nghyd-destun cynllunio sefydlogrwydd ar gyfer plant nad ydynt yn derbyn gofal

- 6.1 Os nad yw'r plentyn yn derbyn gofal, mae gan yr awdurdod lleol yr un cyfrifoldeb am adrodd i'r llys ac asesu ei argymhellion yn ofalus. O ran plentyn sy'n derbyn gofal, gwneir pob ymdrech i ystyried yn llawn gyda'r darpar ymgeiswyr a'r plentyn y rhesymau dros wneud cais, a yw'n ddoeth gwneud hynny, a beth allai'r opsiynau eraill fod. Rhoddir gwybod i'r darpar ymgeiswyr am rôl yr awdurdod lleol wrth adrodd a gwneud argymhellion i'r llys, gan gynnwys eu dyletswydd i ystyried ac adrodd ar ba opsiynau eraill y gallai'r llys ddymuno eu hystyried.

7. Gwasanaethau Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig

7.1 Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i asesu'r angen am wasanaethau cymorth a'u darparu i gefnogi trefniadau Gwarcheidiaeth Arbennig. Nid yw asesiad o angen am wasanaeth penodol (ariannol ac anariannol) yn arwain yn awtomatig at ddarparu'r gwasanaeth hwnnw.

7.2 Mae Canllaw ar gyfer *Cynnig Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig yng Nghymru 2020 (AFA)* yn tynnu ynghyd ganllawiau statudol sy'n ymwneud â gofynion gwasanaethau cymorth fel y'u hamlinellir yn Neddf Plant 1989, Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd yn 2018) a'r Cod Ymarfer Gwarcheidiaeth Arbennig ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig 2018. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaethau a ganlyn:

- Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (gan gynnwys gwybodaeth ar y we ar gyfer plentyn/person ifanc; darpar Warcheidwaid Arbennig)
- Cymorth ariannol
- Gweithiwr cymorth penodol
- Cyswllt
- Gwasanaethau therapiwtig
- Cymorth i hybu sefydlogrwydd perthynas
- Cyfryngu

7.3 Gall yr asesiad gael ei gyfyngu i'r angen am wasanaeth cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig penodol os yw'r person sy'n gofyn am yr asesiad wedi gofyn am wasanaeth penodol, neu, os yw'n ymddangos i'r awdurdod lleol y gallai anghenion y person gael eu hasesu'n ddigonol drwy gyfeirio at wasanaeth cymorth penodol. Fodd bynnag, dylid ehangu'r asesiad pe bai'n dod i'r amlwg

bod anghenion cymorth ychwanegol. Nid oes angen i'r awdurdod lleol baratoi cynllun gwasanaethau cymorth lle mae gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig yn cael eu darparu ar un achlysur, oherwydd yn yr achos hwn bydd hysbysiad yn cael ei roi a fydd yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.

- 7.4 Mae'n bwysig cydnabod y gall tai, addysg ac iechyd chwarae rhan fawr wrth asesu anghenion teuluoedd Gwarcheidiaeth Arbennig, ond efallai na fydd anghenion a nodir o dan y penawdau hyn, ynddynt eu hunain, yn arwain at wasanaeth cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig.
- 7.5 Mae'r cynllun cymorth ar gyfer Gwarcheidwad Arbennig yn cael ei ddatblygu gan weithiwr cymdeithasol y plentyn, sy'n adnabod y plentyn, ar y cyd â'r gweithiwr cymdeithasol sy'n asesu o'r Tîm Maethu sy'n adnabod y darpar Warcheidwaid Arbennig ac sy'n arbenigo mewn nodi'r ffactorau sy'n hybu sefydlogrwydd.
- 7.6 Wrth baratoi'r cynllun, bydd y Gweithwyr Cymdeithasol yn ymgynghori â derbynnydd arfaethedig y gwasanaethau cymorth, neu os yw'r derbynnydd yn blentyn nad yw o oedran a dealltwriaeth ddigonol, gyda'r Gwarcheidwad Arbennig neu oedolyn priodol arall. Os oes angen i wasanaethau gael eu darparu gan y Bwrdd Iechyd Lleol neu asiantaethau partner eraill, ymgynghorir â nhw hefyd. Os yw'r derbynnydd yn byw mewn ardal awdurdod lleol arall, gellir ymgynghori â'r awdurdod lleol hwnnw hefyd fel y bo'n briodol.
- 7.7 Rhaid i'r cynllun cymorth gorffenedig gael ei gytuno gan y gweithwyr cymdeithasol a'r rheolwyr tîm o fewn y Timau Diogelu a Maethu perthnasol. Rhaid darparu'r Cynllun Cymorth yn ysgrifenedig i'r darpar Warcheidwad, ynghyd â chopi o'u hasesiad gorffenedig a rhoddir cyfle iddynt gyflwyno sylwadau i'r awdurdod lleol os oes meysydd lle ceir anghytundeb. Os na cheir sylwadau o fewn 28 diwrnod (oni bai bod amgylchiadau penodol yn gofyn am gyfnod byrrach neu hirach) tybir y cytunir ar y cynnwys. Rhaid rhoi cyfle hefyd i'r darpar

Warcheidwad gael cyngor cyfreithiol annibynnol ar yr asesiad a'r cynllun cymorth cyn gwneud unrhyw gais.

- 7.8 Os yw gwrthrych yr asesiad yn blentyn o oedran a dealltwriaeth ddigonol, rhaid ei hysbysu o ganlyniad yr asesiad, oni bai bod amgylchiadau penodol yr achos yn golygu y byddai'n amhriodol gwneud hynny – er enghraifft, oherwydd y gallai fod yn niweidiol i les y plentyn.
- 7.9 Pan fo'r person y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef yn byw yn ardal awdurdod lleol arall, rhaid i'r awdurdod lleol a baratôdd y cynllun roi copi o'r cynllun i awdurdod lleol yr ardal, oni bai bod yr awdurdod o'r farn nad oes angen hynny.
- 7.10 Mae Rheoliad 5 o Reoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) (Diwygio) 2018 yn nodi'r rhestr o bobl sydd â hawl i ofyn am asesiad ar gyfer gwasanaethau cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig. Nid oes rhaid i awdurdodau lleol ddarparu'r gwasanaethau hyn yn uniongyrchol, ond gallant drefnu iddynt gael eu darparu mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, fel y bo'n briodol.
- 7.11 Mae'r cod ymarfer yn gosod dyletswyddau ychwanegol ar yr awdurdod lleol i wneud y rheini a nodir isod yn ymwybodol o'u hawl i ofyn am asesiad ar gyfer gwasanaethau cymorth Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig ar bob cam priodol h.y. pan wneir cais ac eto unwaith y bydd y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn ei le ar ôl y tair blynedd gyntaf. Mae'r rhestr hon yn cynnwys:
- plentyn sy'n destun Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig neu riant plentyn o'r fath;
 - plentyn y mae person wedi rhoi hysbysiad i awdurdod lleol mewn perthynas ag ef o'i fwriad i wneud cais am Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig neu riant plentyn o'r fath;

- plentyn y mae'r llys wedi gofyn am adroddiad awdurdod lleol mewn perthynas ag ef neu riant plentyn o'r fath;
- plentyn sy'n destun, neu a enwir mewn, adroddiad awdurdod lleol ar gyfer y llys;
- Gwarcheidwad Arbennig neu ddarpar Warcheidwad Arbennig;
- plentyn Gwarcheidwad Arbennig neu ddarpar Warcheidwad Arbennig;
- perthynas i blentyn sy'n dod o fewn y tri phwynt bwled cyntaf ar yr amod bod trefniadau cyswllt yn eu lle cyn y cais am asesiad.

7.12 Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi trefniadau ar waith i gadw mewn cysylltiad â phlant lle mae Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig wedi'i wneud, yr Awdurdod Lleol gwreiddiol a'r Awdurdod Lleol lle mae'r Gwarcheidwad Arbennig a'r plentyn/plant yn byw yn dilyn y tair blynedd gyntaf drwy weithiwr cymorth y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig Maethu. Fel isafswm, rhaid cysylltu â'r Gwarcheidwad Arbennig o leiaf unwaith y flwyddyn – **nid yw'r adolygiad o'r asesiad ariannol yn cyfrif fel y cyswllt**. Gall y Gwarcheidwad Arbennig ddewis peidio ag ymgysylltu â'r cyswllt, fodd bynnag, rhaid i'r Awdurdod Lleol ddangos bod y cyswllt blynyddol wedi'i gynnig a bod y Gwarcheidwad Arbennig naill ai wedi derbyn/gwrthod ymgysylltu am y tair blynedd ar ôl i'r gorchymyn gael ei roi.

7.13 Cynhelir adolygiadau o gynllun cymorth y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig gan y Tîm Maethu a fydd wedyn yn cydlynu â'r timau, asiantaethau neu wasanaethau priodol i ddiwallu anghenion asesedig y teulu,

7.14 Lle rhoddir cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig fel rhan o Gynllun Gofal a Chymorth, bydd yr Adolygiad hwn yn destun y gofynion adolygu o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

8. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

- 8.1 Yn unol â Chod Ymarfer Diwygiedig Rhan 6, bydd cyflawni 'sefydlogrwydd' yn ystyriaeth allweddol o'r adeg y bydd plentyn yn dechrau derbyn gofal, a dylai cynllun gofal a chymorth Rhan 6 nodi o'r cychwyn cyntaf sut y cyflawnir hyn. Un o swyddogaethau allweddol y cynllun gofal a chymorth yw sicrhau bod gan bob person ifanc gynllun ar gyfer sefydlogrwydd erbyn yr ail adolygiad o blant sy'n derbyn gofal.
- 8.2 Mae'r Cod Ymarfer yn cysylltu Gwarcheidiaeth Arbennig â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae tabl sy'n nodi'r cysylltiadau rhwng erthyglau CCUHP, canlyniadau llesiant cenedlaethol ac Egwyddorion Deddf Plant "lles y plentyn" o fewn y cod ymarfer.
- 8.3 Rhaid i weithwyr proffesiynol sicrhau bod dyletswyddau eiriolaeth wedi'u bodloni mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal sy'n mynd i drefniant Gwarcheidiaeth Arbennig. Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd sicrhau bod y Gwarcheidwad/Gwarcheidwaid Arbennig yn cael eu cyfeirio at ffynonellau cyngor ac eiriolaeth annibynnol, fel y bo'n briodol.
- 8.4 Os oes gan blentyn mewn trefniant Gwarcheidiaeth Arbennig anghenion sy'n cael eu hasesu o dan Ran 3 o'r Ddeddf, dylai'r Awdurdod Lleol hefyd asesu'r angen am wasanaethau cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig ar yr un pryd. Os oes gan y plentyn gynllun gofal a chymorth o dan Ran 4 o'r Ddeddf, dylid cynnwys unrhyw wasanaethau cymorth Gwarcheidwad Arbennig yn y cynllun hwn.

9. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol am lwfansau Gwarcheidiaeth Arbennig

- 9.1 Ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, mae'r awdurdod lleol a fu'n gofalu amdanynt ddiwethaf yn cadw'r cyfrifoldeb am asesu a darparu gwasanaethau cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig am dair blynedd o ddyddiad gwneud y gorchymyn. Ym mhob sefyllfa arall, gan gynnwys lle mae'r cyfnod cychwynnol o dair blynedd wedi dod i ben, yr awdurdod lleol lle mae'r Gwarcheidwad Arbennig yn byw sy'n gyfrifol am asesu a darparu gwasanaethau cymorth.
- 9.2 Mae darparu lwfans y cytunwyd arno cyn gwneud y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r awdurdod a gytunodd arno'n wreiddiol, am gyfnod amhenodol, ni waeth ble mae'r teulu'n byw.
- 9.3 Pan fydd y cyfnod o dair blynedd, sy'n dechrau o adeg gwneud y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, ar fin dod i ben, **rhaid** i'r awdurdod lleol gwreiddiol, ddim hwyrach na thri mis cyn diwedd y tair blynedd, gynnal adolygiad, hysbysu'r awdurdod lleol perthnasol o unrhyw angen parhaus am wasanaethau a chyfeirio'r Gwarcheidwad Arbennig at wybodaeth, cyngor a chymorth lleol perthnasol. Mae'r cod ymarfer (pennod 11) hefyd yn gosod rhai dyletswyddau/canllawiau ychwanegol mewn perthynas â'r dyfarniad tair blynedd sy'n ymwneud â rheoli achosion:
- Os yw'r plentyn i fyw mewn ardal Awdurdod Lleol arall o ddyddiad y gorchymyn, rhaid i'r Awdurdod Lleol gwreiddiol hysbysu'r Awdurdod Lleol hwnnw bod y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig wedi'i wneud (11.3)
 - Dylai Awdurdodau Lleol gydweithredu i sefydlu pa wasanaethau sydd i'w darparu'n lleol (er y bydd yr Awdurdod Lleol gwreiddiol yn ariannu am dair blynedd) (11.4)
 - Bydd angen cytundeb ynghylch pwy sy'n darparu unrhyw wasanaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Llesiant Rhan 4 (disgwylir y bydd yr Awdurdod

Lleol gwreiddiol yn parhau i ddiwallu unrhyw anghenion parhaus, gan gynnwys y rheini yn ychwanegol i'r gwasanaethau cymorth Gwarcheidwad Arbennig a ragnodwyd am y tair blynedd) (11.5)

10. Gorchymynion Gwarcheidiaeth Arbennig a Gadael Gofal

10.1 Gall plant a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yn union cyn gwneud Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig fod yn gymwys i gael cyngor, arweiniad a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae adran 104 o Ddeddf 2014 yn diffinio chwe chategori pobl ifanc mewn perthynas â gadael gofal, a diffinnir 'person ifanc categori 5' fel person rhwng 16 a 21 oed sy'n destun gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig (neu a oedd pan oedd ef neu hi yn 18 oed), ac a oedd yn derbyn gofal yn union cyn i'r Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig gael ei wneud.

10.2 Mae dyletswyddau llawn awdurdod lleol tuag at 'person ifanc categori 5' wedi'u nodi yn adran 114 o Ddeddf 2014. Ceir rhagor o fanylion yn y Cod Ymarfer sy'n ymwneud â Rhan 6 o'r Ddeddf (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya), pennod 5 ('Gadael gofal').

10.3 Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried a oes angen cymorth o'r math a nodir yn adran 114 ar y person ifanc. Os yw'r awdurdod lleol wedi'i fodloni nad oes gan y person a oedd yn gofalu am y person ifanc (y gwarcheidwad arbennig neu'r cyn warcheidwad arbennig) y sgiliau angenrheidiol ar gyfer cynghori ef neu hi neu fod yn gyfaill iddo ef neu iddi hi, rhaid i'r awdurdod lleol gynghori'r person ifanc a bod yn gyfaill iddo, a'i gefnogi yn ôl yr angen yn y ffyrdd a ganlyn:

- mewn nwyddau
- cyfrannu at dreuliau yr eir iddynt gan y person ifanc wrth fyw yn agos i'r man lle bydd yn cael ei gyflogi neu'n chwilio am waith
- cyfrannu at dreuliau yr eir iddynt gan y person ifanc wrth fyw yn agos i'r man lle bydd yn cael addysg neu hyfforddiant
- rhoi grant i'w alluogi i dalu costau sy'n gysylltiedig ag addysg neu hyfforddiant
- darparu llety os na chaiff cymorth ei roi yn y ffyrdd uchod
- mewn arian parod.

10.4 Lle bo'n briodol, dylai'r awdurdod lleol roi ymgynghorydd personol i'r person ifanc.

10.5 Gall yr awdurdod lleol hefyd roi cymorth o dan rai amgylchiadau hyd at 25 oed, pan fo'r person ifanc yn cwblhau cwrs addysg neu hyfforddiant fel y nodir yn y cynllun y cytunwyd arno gyda'r person ifanc.

10.6 Mae'r darpariaethau hyn yn cydnabod y gall rhai pobl ifanc a adawodd ofal o dan Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig fod yr un mor agored i niwed, ac ag anghenion tebyg iawn i bobl ifanc a adawodd ofal yn 16 neu 18 oed. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd bod y Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig yn dod i ben pan fydd y person ifanc yn 18 oed. Maent yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymateb yn ddigonol i anghenion unigol y bobl ifanc hyn.

10.7 Os yw awdurdod lleol yn fodlon bod angen cyngor a chymorth ar 'person ifanc categori 5', rhaid iddo asesu ei anghenion a phenderfynu ar y ffordd orau i'w diwallu. Os daw'r awdurdod i'r casgliad y bydd angen cymorth ar y person ifanc dros gyfnod o amser, dylai lunio cynllun mewn partneriaeth â'r person ifanc, yn amlinellu'r gofal a'r cymorth sydd i'w roi. Dylai'r cynllun ddilyn yr un fformat â 'chynllun llwybr' ar gyfer person ifanc sy'n paratoi i adael gofal (fel y nodir ym mhennod 5 o God Ymarfer Rhan 6).

10.8 Rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu pobl ifanc sydd wedi gadael gofal o dan Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig o'u hawl i asesiad ar gyfer cymorth i rai sy'n gadael gofal. Mae'n arfer da gwneud hyn pan fydd y plentyn ar fin troi'n 16 oed.

10.9 Dylid nodi nad yw pobl ifanc mewn trefniadau gwarcheidiaeth arbennig yn gymwys i ymrwymo i drefniadau byw ôl-18 o dan adran 108 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y cynllun 'Pan Fydda i'n Barod'), hyd yn oed os ydynt yn byw gyda'u cyn rieni maeth. Rhaid i awdurdodau

lleol sicrhau bod rhieni maeth sy'n ystyried dod yn warcheidwaid arbennig, a'r plant a'r bobl ifanc sydd wedi'u lleoli gyda nhw, yn gwbl ymwybodol o hyn cyn gwneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig. Lle bo'n briodol, dylai awdurdodau lleol ystyried ffyrdd eraill o gefnogi plant a oedd yn arfer derbyn gofal ac sy'n dymuno parhau i fyw gyda'u gwarcheidwaid arbennig ar ôl iddynt droi'n 18 oed, megis llety â chymorth.

10.10 Mae rheoliad 13 o Reoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 yn darparu mai'r awdurdod lleol perthnasol mewn perthynas â rhoi cyngor a chymorth yw'r un a ofalodd ddiwethaf am y plentyn.

10.11 Efallai y bydd adegau pan nad yw'n glir pa awdurdod sy'n gyfrifol am roi cyngor a chymorth ynghylch gwarcheidiaeth arbennig – er enghraifft, pan symudodd y plentyn rhwng lleoliadau mewn ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol. Mae Rheoliad 13 o Reoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 yn datgan mai'r awdurdod perthnasol fydd yr awdurdod lleol a ofalodd ddiwethaf am y person. Mae trefniadau tebyg yn berthnasol i bobl ifanc a oedd gynt yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yn Lloegr, a'r awdurdod perthnasol at ddibenion rhoi cyngor a chymorth fydd yr awdurdod lleol yn Lloegr a oedd yn gofalu amdanynt ddiwethaf.

11. Cwynion a Sylwadau

11.1 Rhaid ymdrin â chwynion a sylwadau am wasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig yn unol â gweithdrefnau cwyno'r awdurdod lleol.

11.2 Mae Rheoliad 14 o Reoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 yn nodi y gellir gwneud cwynion a sylwadau yn benodol mewn perthynas â'r gwasanaethau a ganlyn:

- cymorth ariannol i warcheidwaid arbennig
- grwpiau cymorth i blant
- cymorth mewn perthynas â chyswllt
- gwasanaethau therapiwtig i blant
- cymorth i sicrhau parhad y berthynas rhwng y plentyn a'i warcheidwad arbennig neu ddarpar warcheidwad arbennig.

11.3 Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod plant sy'n destun trefniadau gwarcheidiaeth arbennig, gwarcheidwaid arbennig a darpar warcheidiaethau arbennig, a rhieni, yn cael gwybodaeth am sut i wneud cwynion a sylwadau.

12. Atodiadau

Atodiad 1 – Cynllun Cefnogi Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig - Yn gyntaf



sco-support-plan-first.pdf



sco-support-plan-welsh-1.pdf

Atodiad 2 – Cynllun Cefnogi Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig - Adolygu



sco-support-plan.pdf



sco-support-plan-welsh.pdf